

# SL(6)077 - Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Gwneir [Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015 \(Diwygio\) 2021](#) ("y Rheoliadau") o dan y pwerau yn adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur").

Mae adran 26 o'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu'r safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hyrwyddo a safonau cadw cofnodion.

Mae adran 27 o'r Mesur yn darparu pwerau ar gyfer pennu safonau mewn perthynas â chadw cofnodion am gwynion ynghylch y Gymraeg.

Mae adran 39 o'r Mesur yn darparu y gall safonau a bennir gan Weinidog Cymru o dan adran 26 o'r Mesur fod yn gymwys yn benodol i bersonau penodol os bydd Gweinidogion Cymru'n awdurdodi'r comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw i gydymffurfio â'r safon.

Mae adran 150 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 26 o'r Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Pennodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau 2015") safonau mewn perthynas ag ymddygiad Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg (yn ddarostyngedig i rai amodau) i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan Rheoliadau Rhif 1, i'r cyrff hynny.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2015 i ddod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fewn cwmpas y safonau penodedig hynny a galluogi'r Comisiynydd i wneud hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r corff hwnnw.

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau:

- a. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rheoliad 1(4) o Reoliadau 2015 o dan y diffiniad o "corff."
- b. Yn mewnosod y diffiniad o "Cyd-bwyllgor Corfforedig" yn y ddarpariaeth ddehongli yn rheoliad 1(4) o Reoliadau 2015.
- c. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2015.



Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

## Gweithdrefnau

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y canlynol yn y Nodyn Esboniadol sy'n ymdrin â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

*"Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol."*

Fodd bynnag, nodwn hefyd y canlynol o adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol:

*"Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corffor[edig] y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corffor[edig] y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corffor[edig] y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corffor[edig] y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus megis y rhai ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021."*

*Tybiwyd at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai rhywbeth a gyflawnir gan swyddogaeth corff corfforedig Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyddai arfer dyletswyddau*



*o'r fath ac fe gynhwysir costau arfer y dyletswyddau cyrff cyhoeddus o fewn y Rheoliadau hyn yn yr ystod o gostau a ddarperir ar gyfer y swyddogaeth corff corfforedig gyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol."*

Er na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol uniongyrchol ar gyfer y Rheoliadau hyn, nodwn yr ystyriwyd eu heffaith reoleiddiol bosibl fel uchod. Fodd bynnag, gallai haerriad penodol y Nodyn Esboniadol sy'n nodi, "*O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol*", fod yn ddryslyd i ddinesydd pe bai'n darllen y Rheoliadau ar wahân i'r Memorandwm Esboniadol.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**